Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Arian cyfatebol yr Undeb Ewropeaidd

Medi 2010

## 1: Beth yw arian cyfatebol?

Fel rheol, dim ond cyfran o gyfanswm cost unrhyw brosiect neu weithgaredd a gefnogir y gall arian yr Undeb Ewropeaidd dalu amdano. Rhaid cael y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng y cymorth a roddir gan yr Undeb Ewropeaidd a'r cyfanswm sydd ei angen i ddarparu'r prosiect o ffynonellau eraill. Gelwir cymorth o'r math hwn yn arian cyfatebol.

Fel arfer, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw arian cyfatebol ac yn y rhan fwyaf o achosion, rhaid ei bennu a'i ddiogelu cyn y bydd arian Ewropeaidd yn cael ei ddyfarnu. Rhaid cael tystiolaeth lawn o arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni ariannu Ewropeaidd.

## 2: Beth yw'r prif mathau o arian cyfatebol?

Mae dau fath o arian cyfatebol:

1. **Gwirioneddol:** sy'n gyffredinol yn cyfeirio at arian a gaiff ei gyfrannu at brosiect a ariennir yn rhannol gan yr Undeb Ewropeaidd; a
2. **Mewn da:** sy'n gyffredinol yn cyfeirio at wasanaethau neu gynnyrch a gyfrannir tuag at y gwaith o gyflawni prosiect. Mae'r rhain yn golygu bod y gost yn fesuradwy o ran y cyflenwr, ac ystyrir costau o'r fath i fod yn arian cyfatebol mewn da.  Er enghraifft, y gost o redeg safle i'w ddefnyddio gan staff prosiect, neu gost gwasanaethau gweinyddol a ddarperir i'r prosiect gan drydydd parti. Yn dibynnu ar amodau penodol, gall gwaith gwirfoddol di-dâl hefyd fod yn gymwys fel arian cyfatebol mewn da.[1]

Caiff y ddau wahanol fath o arian cyfatebol eu hisrannu'n ddau gategori arall, sef:

1. **Cyhoeddus:** arian a roddir gan elusennau cofrestredig, neu sefydliadau sy'n cael 50 y cant neu fwy o'u hincwm o ffynonellau llywodraeth; a
2. **Preifat:** arian a roddir gan sefydliadau masnachol.

[1] WEFO: Arian cyfatebol mewn da [fel ar 5 Gorffennaf 2010]

# 3: Faint o arian cyfatebol sydd ei angen ar gyfer y cronfeydd strwythurol?

Mae nifer o raglenni yng Nghymru (gweler yr Hysbysiad Hwylus ynghylch Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd) yn cael eu harian o'r ddwy Gronfa Strwythurol Ewropeaidd, sef **Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)** a **Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)**. Gelwir y canrannau o gostau prosiect cymwys a ddarperir gan y cronfeydd hyn yn gyfraddau ymyrraeth. Maent yn amrywio o raglen i raglen, ac yn ôl y blaenoriaethau unigol o fewn rhaglenni. Yn 2009, cynyddwyd cyfraddau ymyrraeth yn sgil effeithiau'r dirwasgiad. Mae'r tablau a ganlyn yn nodi ffigurau cyffredinol y rhaglenni (fel y'u diwygiwyd yn 2009).[2]

## 3.1: Rhaglen gydgyfeirio (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)

**Tabl 1: Proffil arian cydgyfeirio – Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)**

| Arian Ewropeaidd (€ miliwn) | Arian cyfatebol (€ miliwn) | | Cyfanswm yr arian (€ miliwn) | Arian fel canran o'r cyfanswm | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *ERDF* | *Cyhoeddus* | *Preifat* | | *ERDF* | *Cyhoeddus* | *Preifat* |
| €1,250.4 | *€727.8* | *€197.4* | **€2,175.6** | 57% | 33% | 9% |

**Ffynhonnell:** WEFO ERDF Convergence Operational Programme - **tudalen 190**

**Tabl 2: Proffil arian cydgyfeirio – Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)**

| Arian Ewropeaidd (€ miliwn) | Arian cyfatebol (€ miliwn) | | Cyfanswm yr arian (€ miliwn) | Arian fel canran o'r cyfanswm | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *ERDF* | *Cyhoeddus* | *Preifat* | | *ERDF* | *Cyhoeddus* | *Preifat* |
| €833.6 | *€379.1* | *€82.4* | **€1,295.1** | 64% | 29% | 6% |

**Ffynhonnell:** WEFO ESF Convergence Operational Programme – **tudalen 219**

## 3.2: Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol (Dwyrain Cymru)

**Tabl 3: Proffil arian cystadleurwydd – Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)**

| Arian Ewropeaidd (€ miliwn) | Arian cyfatebol (€ miliwn) | | Cyfanswm yr arian (€ miliwn) | Arian fel canran o'r cyfanswm | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *ERDF* | *Cyhoeddus* | *Preifat* | | *ERDF* | *Cyhoeddus* | *Preifat* |
| €72.5 | *€69.1* | *€18.4* | **€160.0** | 45% | 43% | 11% |

**Ffynhonnell:** WEFO ERDF Regional Competitiveness and Employment Operational Programme - tudalen 146

**Tabl 4: Proffil arian cystadleurwydd – Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)**

| Arian Ewropeaidd (€ miliwn) | Arian cyfatebol (€ miliwn) | | Cyfanswm yr arian (€ miliwn) | Arian fel canran o'r cyfanswm | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *ERDF* | *Cyhoeddus* | *Preifat* | | *ERDF* | *Cyhoeddus* | *Preifat* |
| €63.6 | *€78.5* | *€16.2* | **€158.3** | 40% | 50% | 10% |

**Ffynhonnell**: WEFO ESF Regional Competitiveness and Employment Operational Programme - tudalen 174

[2] Dylid nodi efallai na fydd y canrannau yn dod i gyfanswm o 100 y cant gan fod y ffigurau wedi cael eu talgrynnu.

## 3.3: Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (mae'r ardaloedd cymwys yn amrywio yn ôl y rhaglen)

Mae Cymru yn gymwys i gymryd rhan mewn pedair rhaglen, sy'n ariannu prosiectau y mae sefydliadau o ddwy aelod-wladwriaeth neu fwy yn cymryd rhan ynddynt. Bwriad y prosiectau yw atgyfnerthu'r cydweithredu sy'n digwydd rhwng rhanbarthau dynodedig ar draws themâu trefol, gwledig ac arfordirol. Nid oes proffil ariannu ar gael ar gyfer Cymru gan fod unrhyw fuddion yn dibynnu ar nifer y ceisiadau llwyddiannus a'u maint.

**Tabl 5: Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd – proffil ariannu ar gyfer rhanbarthau cymwys yn yr UE**

| | Arian Ewropeaidd (€ miliwn) | Arian cyfatebol (€ miliwn) | Cyfanswm yr arian (€ miliwn) | Arian fel canran o'r cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *ERDF* | *Cyhoeddus* | | *ERDF* | *Cyhoeddus* |
| Cydweithredu trawsffiniol: Iwerddon / Cymru | €52.7 | *€17.6* | **€70.3** | 75% | 25% |
| Cydweithredu trawswladol: Gogledd Orllewin Ewrop | €355.4 | €341.2 | **€696.6** | 51% | 49% |
| Cydweithredu trawswladol: Ardal yr Iwerydd | €104.1 | €54.7 | **€158.8** | 66% | 34% |
| Interreg 4C | €321.3 | €83.8 | **€405.1** | 79% | 21% |

**Ffynhonellau:** WEFO Rhaglen Weithredol Drawsffiniol Iwerddon / Cymru – tudalen 95;
North-West Europe Transnational Operational Programme – tudalen 108;
Atlantic Area Operational Programme – tudalen 70;
Inter-regional Operational Programme – tudalen 71.

# 4: Beth yw proffil gwariant y Cynllun Datblygu Gwledig?

Caiff y Cynllun Datblygu Gwledig ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) ac mae'n gymwys i Gymru yn ei chyfanrwydd.

**Tabl 6: Y Cynllun Datblygu Gweldig – proffil gwariant dangosol**

| Echel | Arian Ewropeaidd (€ miliwn) | Gwariant cyhoeddus (€ millwn) | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (€ millwn) | Arian fel cyfanswm gwariant cyhoeddus | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *EAFRD* | | | *EAFRD (1)* | *Cyhoeddus* |
| 1 Gwella cystadleurwydd ffermio a choedwigaeth | €69.0 | €53.0 | **€121.9** | 57% | 43% |
| 2 Yr amgylchedd a chefn gwlad | €225.7 | €495.9 | **€721.6** | 31% | 69% |
| 3 Gwella ansawdd bywyd ac arallgyfeirio cefn gwlad | €52.8 | €41.1 | **€93.9** | 56% | 44% |
| 4 Mentrau datblygu lleol | €25.6 | €21.0 | **€46.6** | 55% | 45% |
| Cymorth technegol | €3.7 | €3.7 | **€7.4** | 50% | 50% |
| **Cyfanswm** | **€376.7** | **€614.6** | **€991.4** | **38%** | **62%** |

*(1) Mae'r rhain yn gyfraddau ymyrraeth EAFRD ar gyfer Cymru gyfan. Mae cyfraddau ymyrraeth yn uwch mewn rhanbarthau cydgyfeirio ac yn is mewn rhai nad ydynt yn rhanbarthau cydgyfeirio.*
**Ffynhonnell**: Llywodraeth Cymru. Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2013 - tudalen 72

Ynghyd â'r gwariant a nodir yn nhabl 6, mae Cynllun Datblygu Gwledig Cymru hefyd yn nodi gwariant sector preifat rhagamcanol o tua €354 miliwn. Disgwylir y caiff rhan helaeth o'r arian hwn ei wario yn Echel 1 (€83.4 miliwn) ac Echel 2 (€264.2 miliwn).[3]

[3] Llywodraeth Cymru: Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2013. tudalen 73

## 5: A oes angen arian cyfatebol ar gyfer cylluniau ariannu Ewropeaidd eraill?

Gallai cymorth gan amrywiaeth o raglenni ariannu Ewropeaidd eraill fod ar gael i sefydliadau wedi'u lleoli yng Nghymru. Maent yn cynnwys y **Seithfed Rhaglen Fframwaith ar Ymchwil (FP7)**, **y Rhaglen Fframwaith ar Gystadleurwydd ac Arloesedd** a **Life+**.

Yn gyffredinol, disgwylir bod ymgeiswyr ar gyfer y rhaglenni hyn yn darparu arian cyfatebol, er bod lefel yr arian cyfatebol a'r math o arian cyfatebol yn amrywio yn ôl y rhaglen.

## 6: Beth yw'r prif ffynonellau o arian cyfatebol?

Mae amrywiaeth eang iawn o ffynonellau posibl o arian cyfatebol. Maent yn cynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, sefydliadau eraill y sector cyhoeddus, elusennau a'r sector preifat. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r cronfeydd a ganlyn:

- **Y Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir:** Cronfa o £350 miliwn i gefnogi prosiectau sy'n gwneud cais am gymorth drwy'r cronfeydd strwythurol.[4] Cronfa pan fetha popeth arall ydyw, sy'n golygu bod rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau arian cyfatebol o ffynonellau eraill cyn iddynt wneud cais. Nid oes dyraniad ffurfiol rhwng y rhaglenni gwahanol a'u blaenoriaethau, er bod rhai blaenoriaethau wedi'u pennu fel rhai sy'n fwy tebygol o ddenu cefnogaeth.[5]
- **Cronfa Arian Cyfatebol Blaenoriaeth 4 Cydgyfeirio ESF:** Mae'r gronfa'n darparu cyfanswm o hyd at £1 miliwn ym mhob blwyddyn ariannol i brosiectau sy'n gwneud cais i gronfa Blaenoriaeth 4 Cydgyfeirio ESF (moderneiddio a gwella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus). Y lefel uchaf o arian sydd ar gael i bob ymgeisydd yw 25 y cant o gyfanswm costau'r prosiectau cymwys. [6]

## 7: Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor y wybodaeth am agweddau ar arian cyfatebol, cysylltwch â **Leon Gooberman** (**Leon.Gooberman@wales.gov.uk**), Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

Gallwch weld rhestr lawn o **hysbysiadau hwylus** yma.

**MRS 10/1704 Leon Gooberman**

**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@wales.gov.uk**

[4] WEFO: Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir [fel ar 5 Gorffennaf 2010]
[5] WEFO: Argymhellion Ynghylch Blaenoriaeth Mynediad at y Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir (Cydgyfeiriant a Chystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol); Argymhellion Ynghylch Blaenoriaeth Mynediad at y Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir (Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd) [fel ar 5 Gorffennaf 2010]
[6] WEFO: Pot arian cyfatebol – Blaenoriaeth 4 Cydgyfeirio ESF [fel ar 5 Gorffennaf 2010]